**PWYLLGOR CYSAG SIR Y FFLINT**
**12 MEHEFIN 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor CYSAG Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019.

**YN BRESENNOL:**

**AELODAU ETHOLEDIG:**
Chris Bithell (CB) (Cadeirydd)
Janet Axworthy (JA)
Adele Davies-Cooke (A D-C)
Dave Mackie (DM)

**CYNRYCHIOLWYR YR AWDURDOD LLEOL:**
Vicky Barlow – Uwch Reolwr Systemau Gwella Ysgolion (Addysg ac Ieuenctid) (VB)

**ENWADAU CREFYDDOL:**
Roz Williams

**CYNRYCHIOLWYR ATHRAWON:**
Dim

Hefyd yn bresennol:
Joanna Hayes – Arweinydd Tîm Newid a Chymorth Busnes (JH), Clerc

1. **CROESO A CHYFLWYNIADAU**

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Y Cynghorydd Paul Cunningham
   Y Cynghorydd Ian Roberts
   Y Cynghorydd Colin Legg

3. **DATGAN CYSYLLTIAD**

   Dim

4. **COFNODION**
   Materion yn codi -
   Gwnaed cais i gynnwys cofrestr presenoldeb am y flwyddyn wrth anfon y rhaglen.
   Gofynnwyd hefyd am gael taflen gofrestru yn y cyfarfod nesaf.
   Gwnaed cais i anfon llythyr at aelodau a oedd wedi methu dau gyfarfod, ac anfon e-bost at bob aelod i roi gwybod am amser newydd y cyfarfodydd (VB i ymgymryd â hyn).

**5. PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Yn unol â’r trefniadau a bennwyd ym mhwyntiau 4-4.5 yng Nghylch Gorchwyl CYSAG, cytunwyd i benodi cadeirydd ac is-gadeirydd yn y flwyddyn academaidd newydd.

**6. DADANSODDI ADRODDIADAU AROLYGU**

Rhoes VB grynodeb o’r adroddiadau arolygu.

**7. CWRICWLWM NEWYDD CYMRU – YMGYNGHORIAD CENEDLAETHOL**

Rhoes VB fraslun o Faes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau ar gyfer y cwricwlwm newydd, a fyddai’n destun ymgynghoriad rhwng 30 Ebrill a 19 Gorffennaf 2019. Byddai VB yn llunio ymateb drafft i’r ymgynghoriad ar ran CYSAG.

**8. CCYSAGC**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019.
Daethpwyd i gytundeb ynglŷn â’r cynrychiolwyr yng nghyfarfod nesaf y Gymdeithas yng Nghonwy ar 28 Mehefin 2019. Byddai VB yn mynd i’r cyfarfod, a byddai DM yn cadarnhau y gallai yntau fynd hefyd.

Byddai VB yn holi pa bryd y deuai tro CYSAG Sir y Fflint i gynnal y cyfarfod (cynhelid y cyfarfod yng ngogledd Cymru yn nhymor yr haf).

Dywedodd DM fod y Gymdeithas wedi gwneud cais am wybodaeth gan Gyngor Sir y Fflint a bod y Cyngor heb ymateb. Byddai VB yn ymchwilio i hynny.

**9. GOHEBIAETH**

Rhoes VB adroddiad ar lafar gan gynnwys manylion yr enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru.

Cynigiodd RW y dylai VB benderfynu ar y mater ar ran y Pwyllgor. Eiliodd DM y cynnig hwnnw.

**10. Unrhyw fater arall**

Byddai VB yn delio â’r unigolyn a oedd wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â CYSAG.

**11. CYFARFODYDD I DDOD**

Dydd Mercher 26 Chwefror 2020 4pm Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug

Dydd Mercher 10 Mehefin 2020 4pm Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug

Byddai angen pwysleisio i gynrychiolwyr athrawon y byddai cyfarfodydd y pwyllgor yn dechrau am 4pm o hyn ymlaen.

Daeth y cyfarfod i ben am 5:45pm.